
PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 27 MEHEFIN 2016

Yn bresennol:-

Aelodau Etholedig:- Y Cynghorwyr Lesley Day, Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

Aelodau Annibynnol:- Ms Jacqueline Hughes, Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

Aelod Pwyllgor Cymunedol:- Mr David Clay.

Hefyd yn Bresennol: Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2016 fel rhai cywir.

Diolchodd y Cynghorydd Lesley Day i'w chyd-aelodau am eu dymuniadau da.

Nododd y Cynghorydd Michael Sol Owen y bu iddo, trwy amryfusedd, anghofio anfon ymddiheuriad.

3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2015/16

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2016. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddogfen. Nodwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Swyddog Monitro yn ychwanegu rhagair i'r adroddiad cyn ei gyhoeddi.

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr y bwriedid cylchredeg yr adroddiad i glercod y cynghorau cymuned a thref yn dilyn y Cyngor llawn yn Hydref.

Gofynnwyd i'r aelodau wirio eu manylion personol ac e-bostio'r Uwch Gyfreithiwr.

Yn ystod y drafodaeth ar gynnwys yr adroddiad:-

- Awgrymwyd cyfeirio at anallu Linda Byrne i barhau fel aelod annibynnol oherwydd gwaeledd.
- Nododd y Cynghorydd Lesley Day nad oedd yn gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn 2015/16.

Holwyd a fyddai'n bosib' cyflwyno'r adroddiad blynyddol i gyfarfod Gorffennaf o'r Cyngor o hyn allan, ond eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd y calendr yn ffafrio hynny.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drafft o adroddiad blynyddol a'i gyflwyno i gyfarfod 6 Hydref o'r Cyngor.

4. MYNYCHU AC ARSYLLU CYFARFODYDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn adolygu'r drefn o ymweld â chyfarfodydd Cyngor Gwynedd a Chynghorau Cymuned y Sir a'r budd a gafwyd ac yn gofyn i'r pwyllgor ystyried fyddai gwerth mewn adnabod rhaglen fwy strwythuredig o arsyllu cyfarfodydd.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Safonau arsyllu'r gwaith o baratoi ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2017, ac yn benodol y sesiynau i godi ymwybyddiaeth darpar ymgeiswyr a'r rhaglen anwytho ar gyfer aelodau etholedig yn dilyn yr etholiadau. Awgrymwyd hefyd y byddai'n syniad cynnwys eitem ar waith y Pwyllgor Safonau yn y sesiynau codi ymwybyddiaeth fel bo darpar ymgeiswyr yn gwybod sut i ymddwyn yn y gweithgareddau ymgyrchu. Nododd y Swyddog Monitro ei fod eisoes mewn trafodaethau gyda'r Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth o fewn y drefn anwytho ynglŷn â rôl y Pwyllgor Safonau.
- Awgrymwyd ei bod yn synhwyrol i gysylltu â chynghorau ymlaen llaw i'w hysbysu o fwiad aelod i ddod i arsyllu cyfarfod, yn enwedig os yw'r aelod hwnnw angen gwasanaeth cyfieithydd.

PENDERFYNWYD

- (a) **Bod gwerth mewn adnabod rhaglen fwy strwythuredig o arsyllu cyfarfodydd ac ymddiried yn y Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr i gytuno rhaglen ddrafft o ymweliadau â chymaint o gynghorau â phosib' dros y 12 mis nesaf.**
- (b) **Gofyn i'r Swyddog Monitro ddarparu adroddiad byr i'r cyfarfod nesaf yn amlinellu'r gwaith o baratoi ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2017 a sut mae'r drefn Safonau yn gweu i mewn i hynny.**

5. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod yr Ombwdsmon bellach wedi hysbysu'r Cyngor ei fod yn ymchwilio i Achos 201600999.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 11.35 y.b.

CADEIRYDD